# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 135

MAI 1987


# PLEIDLEISIWCH YN DACTEGOL

GALLAI pleidleisio tactegol weddnewid natur cynrychiolaeth Caerdydd yn San Steffan. Dyna honiad y mudiad TV87 mewn cynhadledd i'r wasg yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Pe bai gwrthwynebwyr y Ceidwadwyr yn uno i gefnogi un ymgeisydd ym mhob un o etholaethau'r Brifddinas dywed TV87 y byddai tri aelod seneddol Ceidwadol yn colli eu seddi - Stefan Terlezki, Ian Grist a Gwilym Jones - ac y byddai Alun Michael yn dal gafael Llafur ar Dde Caerdydd a Phenarth.

Sefydlwyd TV87 yn wyneb y posibilrwydd o lywodraeth Geidwadol arall yn cael ei ethol ar waetha'r ffaith i'r Toriaid ennill lleiafrif o'r bleidlais. Ym 1983 dim ond 42.2% a bleidleisiodd i'r Ceidwadwyr - eto enillodd Plaid Thatcher 397 o'r 633 o seddi yn San Steffan. Rhagwel sefydlwyr TV87 mai'r un fydd yn digwydd y tro nesaf, ac felly maent yn galw am weithredu pendant gan yr etholwyr.

Dywed trefnydd yr ymgyrch yng Nghymru, Ted Meredith, cyn Gyfarwyddwr Cyllid Dwr Cymru: "Pwy sydd eisiau pum mlynedd arall o Margaret Thatcher? Dim ond pedwar allan o bob deg o'r etholwyr yn ol yr arolygon barn; ond dyma o bosibl y canlyniad a gawn, oherwydd bod y gwrthwynebiad wedi'i rannu fel ag yr oedd ym 1983".

Dengys ganlyniad yr etholiad ym 1983 sut y gellid pleidleisio i gadw'r Ceidwadwyr allan:

CANOL CAERDYDD

| | | |
|---|---|---|
| Ian Grist Ceid | 16090 | 41.5% |
| Michael Germam Rhydd | 12638 | 32.6% |
| Raymond Davies Llaf | 9387 | 24.2% |
| Paul Morgan Plaid | 704 | 1.8% |
| Mwyafrif | 3452 | 8.9% |

GOGLEDD CAERDYDD

| | | |
|---|---|---|
| Gwilym Jones Ceid | 19433 | 47.1% |
| Tony Jeremy SDP | 12585 | 30.5% |
| Jane Hutt Llaf | 8256 | 24.2% |
| Dafydd Huws Plaid | 974 | 2.4% |
| Mwyafrif 6848 16.6% | 6848 | 16.6% |

GORLLEWIN CAERDYDD

| | | |
|---|---|---|
| Stefan Terlezki Ceid | 15472 | 38.0% |
| David Seligman Llaf | 13698 | 33.6% |
| Jeffrey Thomas SDP | 10388 | 25.5% |
| Meurig Parri Plaid | 848 | 2.1% |
| Mwyafrif | 1774 | 4.4% |

DE CAERDYDD A PHENARTH

| | | |
|---|---|---|
| James Callaghan Llaf | 17488 | 41.3% |
| David Tredinnick Ceid | 15172 | 35.9% |
| Winston Roddick Rhydd | 8816 | 20.9% |
| Sian Edwards Plaid | 673 | 1.6% |
| Mwyafrif | 2276 | 5.4% |

Mae'r ymgyrch felly yn annog pleidleiswyr y Brifddinas i bleidleisio dros Mike German SDP (Canol Caerdydd), Tony Jeremy SDP (Gogledd Caerdydd) Rhodri Morgan Llafur (Gorllewin Caerdydd) - pob un yn ymladd yn erbyn aelod seneddol Ceidwadol - a dros Alun Michael sy'n ceisio cadw gafael Llafur ar y sedd a adawyd gan Syr James Callaghan.

Yn gyhoeddus, nid oes un o'r pleidiau yn cefnogi'r egwyddor o bleidleisio tactegol. Ond eto, dywed sawl un o gefnogwyr mwyaf pybur y gwrthbleidiau mai dyma mewn gwirionedd yr unig obaith o drechu'r Ceidwadwyr, neu o leiaf eu ffrwyno drwy sicrhau Senedd grog.




Ian Grist A.S. - gallai pleidleisio tactegol derfynu ei yrfa seneddol yng Nganol Caerdydd.

Bydd TV87 yn ymgyrchu yn Lloegr a'r Alban ac yn gobeithio dylanwadu ar etholwyr mewn o leiaf cant o etholaethau sydd ar hyn o bryd yn nwylo'r Ceidwadwyr. Yng Nghymru, cyhoeddwyd restr o dair ar ddeg o etholaethau - hynny yw pob un sy'n eiddo i'r Toriaid. Ystyrir nifer ohonynt yn dyngedfennol os ydy'r gwrthbleidiau am lwyddo i gipio grym.

Ar waetha tystiolaeth arolygon barn diweddar - rhai Cymreig, Prydeinig a rhai mewn etholaethau ymylol - sy'n dangos y Ceidwadwyr yn bell ar y blaen, gobaith TV87 yw y bydd arolygon a gynhelir yn agosach i ddiwrnod yr etholiad yn argyhoeddi pobl i bleidleisio'n tactegol.

Bydd TV87 yn ymgyrchu yn ystod cyfnod yr etholiad i gadw'r pwnc ym meddwl y cyhoedd ac i sicrhau, os oes angen, bod yr etholwyr yn gwybod pa ymgeisydd sydd fwya tebygol o guro'r Ceidwadwyr. I'r perwyl hwn byddant yn comisiynu arolygon barn mewn etholaethau unigol.

Mewn rhai etholaethau bydd TV87 yn annog etholwyr i gefnogi'r aelod seneddol presennol - er enghraifft, Plaid Cymru ym Meirionydd, y Rhyddfrydwyr yn Nhrefaldwyn a Brycheiniog a Maesyfed a Llafur yn Gwyr, Wrecsam, Dwyrain Casnewydd ac ati.

## DIWEDD Y BYD YNG NGHAERDYDD

UN O UCHAFBWYNTIAU'R byd theatrig yng Ngaerdydd eleni oedd ymweliad Cwmni Theatr Gorllewin Morgannwg a Chlwb Ifor Bach gyda'u perfformiad "A'r gwynt i'r drws bob bore" - sef addasiad o'r ffilm-cartwn "When The Wind Blows" a fydd i'w weld led-led y wlad cyn bo hir. Mae addasu llyfr tebyg i hwn o waith Raymond Briggs yn gofyn medr arbennig, ond mae mynd ati i'w addasu i lwyfannu a chynulleidfa Gymraeg yn gofyn am sensitifrwydd eithriadol ac fe gafwyd prawf o hyn yn y perfformiad. Y cwmni eu hunain oedd wedi addasu'r gwaith, a'r thema gerddorol drwy gydol y ddrama oedd yr alw werin "Mae gen i dipyn o dy bach twt, a'r gwynt i'r drws bob bore", a'r gwynt yn y cyswllt hwn hefo ystyr go ddifrifol.

Stori syml sydd i'r ddrama - fe wyddai y rhan fwyaf o'r gynulleidfa beth ydoedd ymlaen llaw. Gwr a gwraig briod canol oed yn paratoi eu ty bach twt i wynebu ymosodiad niwclear. Roedd y gynulleidfa yn gwybod yn iawn hefyd beth fyddai diwedd y ddrama - dim ond un diwedd allai fod - ond, serch hynny, fel Jim a Hilda, y ddau gymeriad hoffus a didwyll a bortreadir, roedd rhyw lygedyn o obaith yng nghalon pob un oedd yno - gobaith heb obaith fel petae.

Roedd hiwmor du rhan gyntaf y ddrama yn ysgafn ac effeithiol a phawb ohonom yn gweld rhywfaint ohonom ni ein hunian pe digwyddem fod mewn sefyllfa mor arswydus - Hilda yn mynnu y byddai hi yn mynd i'r ty bach yn deidi, ac yn gweld mai peth call oedd rhoi'r clustogau mewn bagiau plastig gan mai un o'i chas bethau

parhad ar dudalen 3.



Anrhydedd arall i Gwilym - trowch i dudalen 3.

# Dyfal Donc

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r DINESYDD ddod o'r wasg, bydd etholwyr Caerdydd wedi cael y cyfle i fwrw eu pleidlais yn yr etholiad i ddewis Cyngor newydd. Adeg etholiad lleol, bydd y pleidiau wrthi'n ddyfal yn gaddo pob dim i'r etholwyr yn eu hardal hwy, gan ddifrio addewidion y pleidiau eraill. Mae hyn yn arbennig o wir yn ward Y Waun Ddyfal (Cathays), b'le mae'r gem arbennig yma wedi ei chwarae gyda chryn fedr ac egni ers blynyddoedd. Daeth y Rhyddfrydwyr yn rym cryf yn y ward yn dilyn ymgyrch gref yn ymwneud a chlirio baw ci o'r pafinau, a bellach mae'r Blaid Lafur wedi mynd mor bell ag ysgrifennu at cadeirydd y pwyllgor priffyrdd i gwyno am y parcio gormodol ar waelod May Street gan bobl nad ydynt yn trigo yno, a phostio copi i dai yn y stryd. Dylid efallai nodi mai yn yr Institute yn y rhan yma o'r stryd y mae'r blaid honno'n cynnal ei chyfarfodydd yn y ward!

Ar gyfer etholiad eleni, fodd bynnag, aeth hi'n boeth rhwng y Gynghrair a'r Blaid Lafur. Mae son wedi bod ers amser am godi canolfan hamdden yn yr ardal ger y Baracs milwrol yn Y Maendy. Tua thair wythnos cyn yr etholiad, cyhoeddodd y Gynghrair daflen yn dangos cynlluniau Canolfan Hamdden a gynhwysir, yn ol yr honiad, mewn 'recently announced Alliance plans for Cardiff.'

Ryw wythnos yn ddiweddarach, daeth taflen a gyhoeddwyd gan y Blaid Lafur drwy'r drws, yn atgynhyrchu erthygl y Gynghrair, gan gyhoeddi bod gwrthwynebwyr y Blaid Lafur yn mynd i ddweud pethau camarweiniol am record Llafur yn yr etholiad. Nid cynlluniau newydd y Gynghrair oedd rhain o gwbl ond cynlluniau'r Blaid Lafur a gyhoeddwyd gyntaf ym 1982. 'Roedd dau Ryddfrydwyr ar y Cyngor wedi pleidleisio yn erbyn y cynlluniau, ac wedi cefnogi cynlluniau ysgeler y Toriaid i godi Canolfan Gymuned ym Mharc y Rhath, ac 'roedd dau gynghorydd Rhyddfrydol Y Waun Ddyfal ei hun wedi atal eu pleidlais. 'They now,' taranai'r daflen 'have the audacity to publish plans first produced by Labour in 1982.'

O fewn deuddydd, glaniodd taflen arall drwy dyllau post etholwyr anffodus y ward. 'Labour get it wrong!' oedd y neges i'r trigolion druan oedd, mae'n siwr, wedi bod yn dilyn y ffrwgwd a diddordeb obsesiynol. Pleidleisiodd pob cynghorydd Cynghrair dros Ganolfan Hamdden yn Y Maendy - os oedd y Blaid Lafur yn gallu gwneud cam-gymeriad ar fater o'r fath bwys, sut allech chi ymddiried mewn dim y byddent yn ei ddweud? Ni wadwyd, fodd bynnag, mai cynlluniau'r Blaid Lafur oeddynt.

A beth am y Toriaid? Maen nhw'n ystyried mai y modd gorau i ennill pleidleisiau yn ward Y Waun Ddyfal yw brolio eu bod wedi cael Canolfan Gymuned i Barc y Rhath. Am ryw reswm nid yw'r pleidiau eraill wedi gwneud unrhyw sylw ar hyn.

---


OS AM WERSI PIANO, cysylltwch â
Joy Davies, B.Mus.,L.T.C.L.
Ffôn: 752173


---

86, Heol Tŷ Coch,
Tŷ Coch,
ABERTAWE.

Annwyl Syr,

Hoffwn fanteisio ar eich tudalennau i estyn gwahoddiad i unrhyw grŵp pop, grŵp gwerin neu berfformiwr/wraig ddod i ddiddanu aelodau a ffrindiau Tŷ Tawe.

Yn ddiweddar prynwyd adeilad yng nghanol Abertawe gyda'r bwriad o sefydlu canolfan Gymraeg yn y ddinas. Yn ogystal â chynnwys siop lyfrau Cymraeg, caffe a bar, mae neuadd go sylweddol ar y llawr cyntaf, lle y bwriedir cynnal nosweithiau amrywiol gan gynnwys nosweithiau pop, gwerin a "chanol y ffordd" yn ogystal â dramau, darlithiau a nosweithiau llawen.

Cyn bo hir byddaf, fel Swyddog Adloniant Cymdeithas Tŷ Tawe, yn llunio rhaglen y Gaeaf. Os oes gan unrhyw grŵp neu berson ddiddordeb mewn perfformio yn y Ganolfan, byddwn yn falch cael derbyn manylion, e.e. dyddiadau, pris (yn cynnwys offer sain?) sawl aelod o'r grwp, math o gerddoriaeth a.y.b. Dylid ysgrifennu ataf i'r cyfeiriad uchod cyn gynted ag y bo modd.

Pob diolch.

Yn gywir,

Huw Landeg Morris.
Swyddog Adloniant Tŷ Tawe.

---


## Eisteddfod Bro Madog 1987




*Am ragor o fanylion ysgrifennwch at:*
**Dr Eurwyn Lloyd Evans,**
**Adran Datblygu Economaidd,**
**Cyngor Sir Gwynedd, Swyddfa'r Sir,**
**Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH**


CYNGOR SIR GWYNEDD COUNTY COUNCIL

**MAE'R FFYRDD I GYD YN ARWAIN I BORTHMADOG**

**GWYNEDD — CORON CYMRU**



## Eisteddfod Bro Madog 1987



*Am ragor o fanylion ysgrifennwch at:*
**Dr Eurwyn Lloyd Evans,**
**Adran Datblygu Economaidd,**
**Cyngor Sir Gwynedd, Swyddfa'r Sir,**
**Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH**

CYNGOR SIR GWYNEDD COUNTY COUNCIL

**MAE'R FFYRDD I GYD YN ARWAIN I BORTHMADOG**

**GWYNEDD — CORON CYMRU**

# Anrhydeddu Gwilym

MEDAL SYR THOMAS PARRY-WILLIAMS - ER CLOD

"Diolch am destun diolch" - dyna'r geiriau sy'n ymddangos ar gefn medal arian Syr Thomas Parry-Williams, y fedal a gyflwynir bob blwyddyn gan Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol i unigolyn sy wedi cyflawni gwaith nodedig dros gyfnod hir o amser i hybu iaith a diwylliant ei fro. Eleni, ym Mhorthmadog, fe'i chyflwynir er clod a diolch i Gwilym Roberts, Rhiwbeina, ac ar ran holl ddarllenwyr Y Dinesydd ein braint ni yw estyn ein llongyfarchiadau cynhesaf iddo fo.

Erbyn hyn mae miloedd o ddysgwyr o bob oed yn ddyledus i Gwilym am ei ddawn arbennig i gyflwyno'r iaith Gymraeg iddyn nhw. Bu'n athro Cymraeg fel ail iaith yn ysgolion cynradd y ddinas ers 27 mlynedd, yn athro hefyd ar ddosbarthiadau i oedolion ac yn un o'r pedwar (gyda Chris Rees a Nia ac Ethni Daniel) a benderfynodd arloesi gyda'r Cynllun Wlpan sy wedi gwneud cymaint i hwyluso'r dasg o ddysgu Cymraeg i laweroedd o bobl. Bu'n gefnogol i'r Mudiad Ysgolion Meithrin o'r cychwyn - daeth ei dymor fel Cadeirydd y Mudiad i ben yn ddiweddar ar ol pedair blynedd ond mae'n cadw ei gysylltiad a'r cylch yn Rhiwbeina lle bu'n Ysgrifennydd ers 27 mlynedd a Chylch Ffynnon Daf sy wedi ffynnu dan ei Gadeiryddiaeth yn ystod yr ugain mlynedd olaf. Yn Rhiwbeina, hefyd, sefydlodd Adran Bentref yr Urdd, ochr yn ochr a'i waith fel Arweinydd yr Aelwyd.

A does dim un o'i ddisgyblion a fu ar gyrsiau ail iaith yng ngwersylloedd Glanllyn a Llangrannog yn debyg o anghofio y penwythnosau bywiog, llawn hwyl, dan ei ofal. Roedd y gymeradwyaeth hir a roddwyd i Gwilym fel Llywydd y Dydd yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd yn gydnabyddiaeth amlwg o'i ymroddiad i'r mudiad. Ac i goroni'r cyfan, llwyddodd "yn ei henaint" (ei eiriau fo) i godi £5,000 drwy loncian 12 milltir o amgylch Llyn Tegid i Mudiad Ysgolion Meithrin.

Fe'i hanrhydeddwyd a Gradd M.A. gan Brifysgol Agored am ei waith clodwiw dros y blynyddoedd.

Gan mai ym Mhenrhyndeudraeth y ganed William Roberts, tad Gwilym, mae'n addas iawn mai yn Eisteddfod Porthmadog a'r Cylch y cyflwynir y Fedal iddo. Mae'n siwr y bydd sawl aelod o'i deulu sy'n dal i fyw ym Mhenrhyndeudraeth ynghyd a llawer o gyfeillion o Gaerdydd yn bresennol yn y gynulleidfa i'w gyfarch ac i ddiolch iddo am ei frwdfrydedd heintus, a'i barodrwydd i gefnogi popeth Cymraeg.

# Colofn Shân Emlyn



Erbyn y daw'r rhifyn hwn o'r Wasg, fe fydd Mari a finna'n gorweddian am wythnos ar Ynys Creta. Felly, rhaid llunio'r golofn hon ymlaen llaw, os gellir honni bod arlliw o lunio arni o fis i fis!

Yn ddiweddar, treuliais wythnos yn Y Felinheli, a mwynhau troedio hen lwybrau, cyfarfod teulu a chyfeillion, a derbyn beirniadaeth go boenus ar ambell aelwyd! Roedd yr ymweliad hon yn dilyn dosbarthu rhifyn Ebrill o'r Dinesydd, a beirniadu yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mhenybont ar Ogwr. Bob mis caf bleser o weld "Y Dinesydd" yn ymddangos a chofio mai ef yw'r cyntaf o wyrth y Papurau Bro. Gwefr - os gwefr flinedig - oedd eistedd wrth fwrdd y Beirniaid o chwarter wedi naw y bore tan hanner awr wedi wyth y nôs, yn gwrando ar lu o gystadleuwyr. Er gwaethaf helyntion yr Athrawon, roedd arlwy'r diwrnod hwnnw'n dystiolaeth o ymroddiad athrawon Cymraeg. Roedd yno dair cân actol wych - a dwy ohonynt wedi'r holl waith a thrafferth heb fynd ymhellach na'r Eisteddfod Sir. Yn fy nhyb i y mae'r Eisteddfodau Sir a Chylch yn fwy o wyrth na ffenestr siop y Genedlaethol. Cyrraedd adra wedi blino'n dwll a'r ffôn yn canu, Elin wedi bod yn gwneud yr un orchwyl yng Nghastell Nedd ac wedi cael blas. Finnau'n mwynhau ei chlywed yn dweud "Mi fasa'n braf basa Mam, tasa rhai o'r rhai ddaru ni feirniadu yn cyrraedd y llwyfan ym Merthyr." A wir, mi fasa!

Ond dyna ni "Yn ôl i'r Felinheli rwy'n mynd .... " Do, cefais groeso, caredigrwydd a mwynhad. Ond sawl siom fach hefyd. Treuliais ddiwrnod ym Mhwllheli - a gwylltio'n gandryll efo rhyw Sais mwstaslaidd militaraidd ei wedd yn ei flager botymau gloyw a ddwedodd wrthyf wrth imi archebu gwydriad o win i'm chwaer i finna yn Gymraeg, "you must speak English here". Ym Mhwllheli! Mi gollais fy limpin yn lân, a wnai ddim dyfynnu be ddwedais i wrtho!

Sgwrsio hefo nifer o hen gyfeillion a chydnabod - a chlywed Cymraeg tebyg i hyn, "Wel, duwcs Shan, it's lovely to see you, flying visit fel arfar ia? Dydan ni'n mynd yn hen tydan ond dyna ni, you're only as old as you feel" a mwy a mwy i'r perwyl yna. Cerdded o amgylch hen dre Pwllheli a gofyn i mi fy hun "Be oedd yn y fan yma?" Y lle a'r lle wedi cau, gweld cydnabod o ddyddiau plentyndod a phetruso i'w chyfarch, ond wnaeth hi mo f'adnabod! Gadael Pwllheli i alw ar ddwy fodryb yng Nghaernarfon a theimlo ar fy ffordd, er imi fwynhau fy hun, bod yna rhyw chwithdod, am a fu mae'n debyg. Yn hollol fympwyol dyma ddeud wrtha fi fy hun "John Roberts Williams fasa'n dallt 'y nheimladau i heddiw". Dyma droi am Llanrug, mi gofiwn enw'r stryd ond fum i erioed yno o'r blaen, galw mewn garej a gofyn "Fedrwch chi ddeud wrthai lle mae Minffordd?" a'r ateb "No, I don't know where Minfyrd is". Hen ŵr o Gymro Cymraeg yn deud "dwi'n gwybod lle mae o ond fedrai ddim deud wrtha chi chwaith!" Yn y diwedd dod o hyd i John a threulio awr felys yno. Wrth imi adael fe ddwedodd "Wyt ti'n cofio'r Rhodd Mam ers talwm ac mai dau fath o blant sy' 'na?" "Ydw" medda finna, "Wel," medda fo wedyn "Tri math o bobol sy' 'na 'sti - plant, ieuenctid a phobol sy'n edrach yn dda - ac mi rwyt ti'n edrach yn dda!" Help! Yn iaith y Fro Gymraeg "You've got to face facts Shan bach, a wir, you've got to laugh neu mi ei di'n boncyrs!

O dudalen 1.

oedd marciau bysedd ar y "cushion covers". Mae Jim hefyd yn gwneud i ni chwerthin drwy ddilyn y cyafarwyddiadau yn "llyfryn bach y llywodraeth" yn fanwl ac yn tynnu'r drysau i wneud lloches - ac yn crafu ei ben yn ddiweddarach pan yw'r llyfr yn dweud wrtho gau'r drysau a'r ffenestri rhag effaith y ffrwydriad.

Yn hytrach na gweld cymeriadau cartwn, yma roedd gennym ddau gymeriad cig a gwaed yn cynrychioli pobun neu'r Cymro Cyffredin a phawb yn y gynulleidfa yn gallu uniaethu eu hunain a nhw mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Fe lwyddodd Derec Parry a Manon Eames i roi personoliaeth i'r ddau yma oedd mor annwyl a serchus y naill at y llall - ef y penteulu a fyddai bob amser yn gwneud y penderfyniadau, a hithau y wraig fach syml a fyddai'n derbyn barn ei gwr ar bopeth - wel, ar bopeth bron.

Mae'r gynulleidfa, wrth gwrs, yn sylweddoli fod y ddau yn araf farw yn gynt na wna'r cymeriadau eu hunain, ac un o'r munudau mwyaf dwys a gafaelgar yw pan fo Hilda'n darganfod y bagiau mawr plastig a'r sellotep a'r labeli ac yn gofyn beth yw eu pwrpas - yntau yn anfodlon i ddweud wrthi, a hithau yn raddol sylweddoli fod un ohoynt i'w defnyddio pan fo'r llall yn marw - a phwy fyddai ar gael i ddefnyddio'r llall? mae eu cariad tuag at ei gilydd yn serennu drwy gydol yr olygfa hon, a'r berthynas rhyngddynt ill dau - a hefyd y berthynas rhyngddynt a'r gynulleidfa - yn datblygu yn ddwys ac yn ystyrlon.

Roedd y ffrwydriad ei hun yn dri munud o arswyd pur - swm byddarol, goleuadau llachar a'r trawsnewid ar y llwyfan yn ysgytwol. Gallwn gredu fod llawer un yn y gynulleidfa wedi dod yn agosach at wir ystyr gweddi na mewn llawer i gwrdd gweddi traddodiadol yn ystod y munudau hyn.

Ymateb merch o'r chweched dosbarth yn y gynulleidfa oedd y dylai'r ddrama hon gael llwyfan yn ysgolion ein gwlad er mwyn i bobl ifanc sylweddoli y perygl a all fod yn eu gwynebu. Yn sicr, fe haeddai llawer well cynulleidfa nag a gafodd yng Nghaerdydd. Efallai nad Clwb Ifor Bach oedd y lle delfrydol i gynnal y perfformiad, ond dewisiodd cwmni Gorllewin Morgannwg berfformio yno er mwyn rhoi cefnogaeth i un o'r ymdrechion i hyrwyddo bywyd Cymreig y brifddinas. Gresyn fod cynifer o Gymry Caerdydd wedi colli cyfle i weld perfformiad mor llwyddiannus ac ysgytwol.

# EISTEDDFOD CASNEWYDD

Mae'n debyg bod dyddiau prysura pwyllgorau Cymru yn cyddaro a dyddiau gemau rhyngwladol, ac mae rhywun wedi hen arfer clywed am gyfarfodydd brys y Bwrdd Croeso neu'r Cyd-Bwyllgor Addysg ar fore'r gem yng Nghaerdydd, gyda phob Cadeirydd yn grefftus orffen yr agenda mewn pryd am baned a brechdan cyn crwydro i'r Maes Cenedlaethol. Mae'n siwr bod Cyngor yr Eisteddfod yn ddigon fydol i ddilyn yr un patrwm, ond mae sylweddoli fod hyd yn oed Gorsedd y Beirdd mor ddigywilydd a phob Mudiad arall yn dipyn o sioc i'r system.

Ar Sadwrn y gem yn erbyn yr Iwerddon fe lithrodd y Cofiadur a'r Arwyddfardd i Gasnewydd i ddewis Mam y Fro, Morwyn y Fro, y Macwyiaid a Morynion y Llys, a chredwch hyn neu beidio, fe gwblhawyd y gwaith cyn cinio gan adael digon o amser i bicio i lawr y drafforddd i Gaerdydd ar gyfer y gyflafan. Ond fe allai'r Cofiadur a'r Arwyddfardd (sef Jams Nicholas a Dillwyn Miles) fynd i'r gem a chydwybod clir - roeddynt wedi gwneud bore o waith da yng Nghasnewydd, ac mae'r cynrychiolwyr a ddewisiwyd ganddynt yn siwr o ddod a chlod i fro Eisteddfod 1988.

Janet Butcher ddewisiwyd yn Fam y Fro. Ganwyd hi yn Nhalog a threuliodd ran o'i phlentyndod yng Nghaerfyrddin. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth lle graddiodd ag anrhydedd yn y Gymraeg. Bu'n dysgu ym Machynlleth ac yn bennaeth Adran Gymraeg Ysgol Llysweri, Casnewydd cyn rhoi ei sylw ar fagu teulu. Mae'n briod â Dr. Len Butcher, brodor o Ferthyr ac un o boffiniaid y byd uchel-dechnoleg yma. Mae iddynt ddau o blant - Rhys sy'n nesu at chwech oed a Lowri sy'n ddeunaw mis. Mae Janet eisoes yn aelod o Lys yr Eisteddfod ac o'r Orsedd.

Mae Janet wedi byw yng Nghasnewydd ers deng mlynedd a bellach mae mor amlwg ym myd y pethe yng Nghasnewydd ag yw'r 'Transporter Bridge'. Mae wedi slafio gyda grwpiau Meithrin a dosbarthiadau Dysgwyr (a'i gŵr yn un enghraifft o'i lwyddiant gyda dysgu Cymraeg fel ail iaith.) Mae'n Ysgrifennydd Cangen Gwent o Ferched y Wawr ac yn Ysgrifennydd Is-Bwyllgor Adrodd yr Eisteddfod. Mae'n gwneud popeth a graen arbennig ac fe fydd yn llenwi swydd Mam y Fro gydag urddas ac anrhydedd.

Kathryn Hunt - un o Gymry Cymraeg Casnewydd fydd yn cyflwyno'r flodeuged ar ran Morynion y Fro, ac mae Kathryn yn un o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Cwm Rhymni. Mae dewis diddorol o lawforynion. Rhian Griffiths sy'n wyres i'r diweddar Barchedig R.I. Griffiths, Abercarn - gŵr a lafuriodd mor galed yng Ngwent yn y blynyddoedd cyn i'r Gymraeg ddechrau adennill ei phlwyf - a Rhiannon Lee sy'n dod o linach y diweddar Barchedig Rhys Bowen, Rhymni. Y Macwyiaid fydd Rhys Thomas (Cil-y-Coed) a Rhys Moses.

Cofiwch mai ar Sadwrn, Mehefin 27 y bydd seremoni'r Cyhoeddi a chewch weld y rhain (ac eraill) yn eu holl ogoniant. Fe gewch y manylion mewn da bryd, ond yng ngerddi Tŷ Tredegar fydd Cylch yr Orsedd ac mae hynny'n hynod o gyfleus i ddarllenwyr y 'Dinesydd' - saith munud ar hyd y drafforddd o Gaerdydd. Cofiwch y dyddiad.

Gwynn Tudno.


Rydw i wedi profi'r gwasanaeth Cymraeg yn Swyddfa Bost Churchill Way!

Ydych chi?

Swyddfa'r Post

## COFEB YN YSGOL SLOPER ROAD

Mewn dwy ystafell ddosbarth yn Ysgol Sloper Rd., Grangetown y dechreuodd Ysgol Gymraeg gyntaf Caerdydd ym Medi 1949. Dydd Sadwrn, 4 Ebrill, dadorchuddiodd Cymdeithas y Cymrodorion gofeb yno. Un o'r athrawon cyntaf, Mrs. Edwina Lewis (nee Davies) wnaeth hynny yng ngwydd nifer dda o'r deunaw plentyn cyntaf a'u rhieni. Mam Alwyn Evans, Mrs. Susie Evans, weithiodd yn ddygn i drefnu'r achlysur hwn. Cymerwyd rhan gan y Parchg. Ifor Rees, Mrs. Susie Evans, Sian Hopkin ac Ethni 'Daniel', a phlant Ysgol Coed y Gof yn canu darn o waith Islwyn Morgan

Dyma'r geiriau (i don 'Deryn y Bwn')

Cymry brwd y ddinas
Ddaeth ynghyd a phwrpas
Be sefydlo nhw?
Ysgol Gymraeg
I ddysgu plant y ddinas.

Ysgol fach gychwynnodd
Ei henw da a ledodd
I bob cornel o'r ddinas fawr
Ysgol gref a dyfodd.

Cymru gyfan glywodd
Y fenter fach ddatblygodd;
Daeth yr ysgol yn enwog iawn,
Eraill rai esgorodd.

Heddiw oll fe gofiwn
Menter fawr clodforwn;
Llwyddiant ysgol a'i haddysg Gymraeg
Ac am hyn, diolchwn.

Darllenwyd hefyd yr englyn hwn o waith Mr. Ithel Davies, gwitman Mrs. Enid Jones Davies, Prifathrawes yr ysgol :

Agor drws wedi'r garw dreisio - a wnaed
yn fan hyn i'r Cymro
gael ei iaith i'w ysgol o'n
iaith ei haddysg, waith, iddo.

Roedd y digwyddiad hwn yn un cofiadwy. Nid oedd rhai o'r disgyblion cyntaf wedi gweld ei gilydd ers blynyddoedd mawr ac ymdeimlwyd a gwres a brwdfrydedd y dyddiau cynnar.

Yn hwyrach y noson honno, cynhaliodd y Cymrodorion swper yn Sain Ffagan i ddathlu eu canmlwyddiant yn y ddinas.

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# SAMPLERI
## Susan Smith

"I lawer o ferched, y mae'r sampler yn crynhoi agweddau gwaethaf y gormes a fu arnynt, cadw bysedd bach yn brysur i lenwi'r oriau gweigion." Go brin fod geiriau Moira Vincentelli yn y llyfryn Merched a Chelf yng Nghymru yn wir am le'r sampler yn ein bywydau heddiw.

Bu'r cyfoeth traddodiadol hwn, yr enghreifftiau o gynllunio pendant a'r gwaith manwl yn ysbrydoliaeth i nifer o artistiaid, ac y mae'r sampler yn brysur ennill ei blwyf fel ffurf o gelfyddyd poblogaidd unwaith eto. Mae brodwaith manwl a chywrain Susan Smith yn adnabyddus i lawer, gan iddi arddangos yn helaeth yn Ne Cymru a rhannau o Loegr dros nifer o flynyddoedd.

Mae'n debyg mai ychydig o bobol sy'n ffodus i fod yn berchen ar waith Susan Smith gan mai i gomisiynnau yn bennaf y gweithiai. Ond bellach mae'n bosibl i unrhyw un gael cynllun o'i gwaith. Ym mis Tachwedd fe gyhoeddodd dri sampler - yr Wyddor Saesneg, yr Wyddor Gymraeg a Thy Bach Twt ar ffurf pecyn 'kit'.

Mae pob pecyn yn cynnwys darlun lliw o'r cynllun gorffenedig, y cynllun ar ffurf graff, defnydd ac edafedd priodol, nodwydd a chyfarwyddiadau manwl ar sut i fynd ati i gynhyrchu'r sampler eich hunain. Daw'r cyfan mewn waled blastig gyfleus. Mae'r ddau becyn ar y Wyddor Saesneg a'r Wyddor Gymraeg sy'n gwerthu am wyth bunt 95c yr un yn syml ac yn addas ar gyfer rhywun sy'n dechrau ar waith brodio, tra bo sampler y Ty Bach Twt (un bunt ar bymtheg 95c) yn fwy o faint ac yn cynnwys nifer o bwythau gwahanol i'w meistroli, ac yn addas felly ar gyfer pwythyddion mwy medrus.

Dywed Susan Smith y bydd sampler o Dy Tredegyr yn barod erbyn diwedd y mis ac un arall Cymreig yn barod erbyn yr haf. Mae ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ychwanegu at y dewis o becynnau ac ehangu ei maes masnachol gan obeithio allforio ei gwaith yn sicr o 'gadw'r bysedd bach yn brysur' - rhai Susan a'ch rhai chi efallai. Os hoffech fwy o wybodaeth am y gwaith, cysylltwch a'r DINESYDD neu yn uniongyrchol a Susan Smith ffon: Casnewydd 56432.




Enghraifft o waith Susan Smith sydd ar werth - y wyddor Gymraeg.

MERCH BROFFESIYNOL
I RANNU TŶ YN NHREGANNA

Ffôn: 20306 ar ôl 6 o'r gloch

# BWTH RUTH



Wel helo, pa hwyl sydd/ Magnolia, cennin Pedr, rhododendron, polyanthus, briallu a forsythia - rhain i gyd yn eu blodau yr un pryd ac yn cynnig gwledd i'r llygad yng ngerddi'r prif-ddinas.

A ddylai'r blodau hyn fod yn eu blodau yr un amser? Ydy'r tymhorau a threfn pethau wedi mynd i'w gilydd rhywsut deudwch? Beth sydd i'w gyfri' am hyn? (atebion i'r cwestiynnau yma yn dderbyniol iawn)


Mi fum ar wyliau yn yr Eidal yng nghanol Mis Ebrill a chanfod wedi dod 'nol fod y tywydd yma gymaint yn well nag yno - ond 'tydi glaw man Eidalaidd yn 'sgafnach ac yn gynhesach na'n glaw ni. Er hardded cefn gwlad Twscani: coed olewydd llwyd, gwinwydd noeth a'r pridd yn binc bron - braf dod yn ol i Gaerdydd i weld holl goed uchel a braf Caeau Llandaf yn deilio yn araf bach. Mae wedi cymryd bron i bythefnos o'r impio cyntaf nes bod yna flodyn a dail ar bob cangen.

Dyma'r amser mae'n rhaid cofio rhoi'r car yn y garej neu bydd yn smotiau gludiog - o'r canghennau uwchben, ond dyna fo mae7n rhwydd dreifio i'r garej y dyddiau rhain - does dim isio gwyro i'r dde wrth fynd i mewn ac osgoi y wal solet o bapur newydd y bum i a chriw Radio Cymru yn ei hel yn amyneddgar dros gyfnod o fisoedd a'i storio acw er mwyn i ni ei wethu a chael arian tuag at Y Dinesydd.

Bore Mercher oedd hi ac mi welwn gymylau o fwg yn codi heibio ffenestri'r fflat a meddyliais yn syth mai llosgi sbwriel oedden nhw yn y bin drws nesa'. Mi oedd y mwg yn tewychu, rhaid oedd busnesu a gweld yn union beth oedd yn mynd ymlaen - sioc och, ow - o fy ngarej i roedd y mwg yn dod. Mi geisiodd un o'r cymdogion a minnau roi'r tan allan efo'r beipen ddwr ond roedd y mwg yn ormod i ni. Wedi deialu 999 daeth drama ar ffurf dwy injan dan a sawl plisman (ifanc) ar droed, goleuadau a chlychau. Ymhen llai na hanner awr, roedd y garej yn for o ddwr a mynydd o bapur du yn y drws. Plentyn yn ei arddegau oedd wrth wraidd yr uffern bach - erbyn hyn un tan a phum lladrad o gar yn ddiweddarach, mae preswylwyr llys Pontcanna yn glustiau ac yn llygaid i gyd. Mae'r pwyllgor rheoli wedi ein hannog i fod yn fusneslyd a sylwi ar bobl ddiarth sy'n crwydro neu'n hongian o gwmpas.

Os bydd gen i funud i'w sbario o fod yn wyliwr ar y twr efallai caf eich gweld chithau yn mwynhau gerddi gwych Caerdydd - Parc Cefn-Onn, Parc y Rhath, Gerddi Waterloo, Parc Thompson, Hailey neu Fictoria neu hyd yn oed i lawr ar Gaeau Llandaf - tan hynny, Hwyl.

**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**



# LLYFRAU

Cyfres y Beirdd Answyddogol, 15-18:
Fryen ab Ogwen, Dyegwr dan Glo;
John G. Rowlands, Aber;
Steve Eaves, Jazz yn y Nos;
Martin Davis, Chwain y Mwngrel;
Y Lolfa, £1.95 yr un.

---

O safbwynt y beirdd unigol mae'n anffodus fod y pedair cyfrol hyn wedi ymddangos gyda'i gilydd yn yr un gyfres, gan fod adolygwyr yn rhwym o'u trafod fel grŵp, ac felly bychanu i ryw raddau arbenigrwydd pob un. Efallai y gellir gweld rhyw agwedd 'amharchus' gyffredin iddynt i gyd sy'n cyfiawnhau eu cynnwys yn yr un gyfres, ond mewn gwirionedd mae cryn dipyn o wahaniaeth rhyngddynt o ran mater a modd - a da hynny wrth gwrs. Un elfen gyffredin iddynt yw'r lluniau niferus sy'n cyd-fynd â'r cerddi, a'u cryfhau'n effeithiol weithiau. Yn llyfr John G. Rowlands y mae'r lluniau mwyaf trawiadol, a dyw hynny ddim yn syndod o gofio mai athro celf ydyw yn Ysgol Penweddig. Mae'i lyfr ef yn sefyll allan yn y grŵp am fod ei waith yn llawer mwy ymwybodol gelfyddydol na'r lleill o ran effaith esthetig geiriau a lluniau. Mae'r bardd hwn wedi meddwi ar adnoddau'r iaith, yn llenyddol ac yn dafodieithol, a rhaid cyfaddef fy mod i'n cael geiriogrwydd ei gerddi'n feichus ar brydiau. Ac eto mae ambell fflach o hiwmor hunanfeirniadol, e.e. lle mae'n cloi disgrifiad barddonllyd o gyfathrach rywiol trwy newid cywair yn sydyn: 'caru o'n nhw chwel...'.


Llawer mwy uniongyrchol yw cerddi Fryen ab Ogwen, gŵr a ddysgodd Gymraeg pan oedd yn y carchar. Yn wir, mae'r bardd hwn yn mynd i'r eithaf arall o siarad yn rhy blaen mewn ychydig o gerddi am serch gwrywgydiol, ac yn anffodus mae lluniau'r gyfrol yn pwysleisio'r elfen honno. Mae'n debyg y bydd rhai pobl yn darllen y llyfr hwn am mai gwrywgydiwr o garcharor yw ei awdur, a mwy yn peidio â'i ddarllen am yr un rheswm. Byddai hynny'n drueni, oherwydd mae tynerwch anghyffredin yn y cerddi i fab y bardd ac i'w gyd-garcharorion, ac mae symlrwydd yr arddull yn bendant yn gryfder yn y rheini.

Mae tynerwch yn elfen yn llais Steve Eaves hefyd, ond yn gymysg â hynny mae tristwch a chryn dipyn o goegni, weithiau yn yr un gerdd. O ddeall oddi wrth y broliant mai 'sosialydd chwyldroadol o argyhoeddiad' yw'r bardd, roeddwn yn disgwyl neges rymus yn ei farddoniaeth, ond y peth amlycaf ynddi yw cydymdeimlad â diflastod bywydau pobl gyffredin - 'a chyn rhated y gwerthwn ein dyddiau' - sydd gystal sail â dim ar gyfer chwyldro, am wn i. Mae ar ei orau lle mae'n gadael i bobl lefaru drostynt eu hunain, fel yn 'boi'r lori laeth', 'hen bennau' a 'Noswyl Nadolig ym Maesgeirchen', a braf yw gweld bardd yn derbyn pobl Cymru fel y maent yn hytrach na mynd dros ben llestri yn eu canmol neu'n eu beirniadu.

Mae cyfrol Martin Davies yn fwy o gyfanwaith na'r lleill oherwydd y ddelwedd ganolog o'r bardd fel 'mwngrel diddosbarth diddannedd' yn canu 'mewn ymgais i ymadael â chosfa'i chwain'. Hwn yw'r casgliad ehangaf o ran rhychwant daearyddol, am nad yw'r mwngrel ddim yn perthyn yn unman, a hefyd yr un mwyaf dysgedig ei gyfeiriadaeth. Mae yma gyfeiriadau at Brecht, Shakespeare, a Williams Parry, pytiau o Almaeneg a Gwyddeleg, a chyfieithiadau o waith Seán O'Casey. Nid yw hynny ynddo'i hun yn beth da, ond mae'r un ysbryd eironig ac awydd i chwalu mythau pob gwlad yn rhedeg trwy'r cyfan, ac yn symbylu'r darllenydd i feddwl o'r newydd. Hon i mi oedd y gyfrol fwyaf difyr a chyffrous, ond buaswn yn argymell darllen gwaith pob un o'r beirdd hyn oherwydd eu gonestrwydd a'u parodrwydd i gael hwyl am eu pennau eu hunain, heb boeni am ddelwedd y Bardd a Barddoniaeth.

D. R. Johnston


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816

## Arddangosfeydd Mai

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

Y PRIF ADEILAD, PARC CATHAYS

Darluniau i Ysgolion
11 MAI - 5 MEHEFIN

Yr arddangosfa flynyddol o weithiau sydd ar werth i ysgolion, colegau a phrynwyr preifat.

Turner House, Plymouth Road, Penarth.

Cymdeithas Dyfrliw Cymru
Tan 24 Mai

Hon yw'r wythfed arddangosfa ar hugain. Gwaith diweddaraf yr aelodau.

Oriel, Heol Siarl.

Cymru a'r Wlad Sanctaidd
16 Mai - 13 Mehefin

Gwaith diddorol iawn Ozi Osmond. Arddangosfa deithiol - wedi bod yn Wrecsam, ac yn dangos golygfeydd o fannau yng Nghymru sy'n dwyn enwau Beiblaidd, ac yn eu cyferbynu a golygfeydd o'r mannau hynny sy'n dwyn yr un enwau yn y Wlad Sanctaidd.

Chapter
Heol y Farchnad, Canton

1. Paula Rego, Renitiadau 1981-86. 2-24 Mai.
2. Beirdd Cymreig - ffotograffiau gan Stuart Smith, 2-24 Mai.

Rhan o Ŵyl Llenyddol Caerdydd. Am 6 mis bu myfyriwr Stuart o Goleg Celf Casnewydd yn teithio Cymru i dynnu lluniau o 27 o feirdd a llenorion. Y mae pob un wedi cyfrannu cerdd at y printiadau sydd yn ymddangos, ac yn cynnwys Glyn Jones, Caerdydd, Dannie Abse, ac Alan Llwyd, yr unig un ohonynt sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg.

TECSTILIAU gan Susan Hakes
2-24 Mai

Cynlluniau wedi eu seilio ar ddiwylliant a chwedlau gwahanol wledydd.


Y TYLWYTH TEG

Cyhoeddi Cerddoriaeth

Hot o'r Wasg!!

Unawdau piano gan Dafydd Wyllt
Sonata Cymru ........... £1.75

"I'm Welsh and I'm blue"
(Wel! dyna drist!) ..... £1.50

ar gael gan Oriel, Taflen, Rowlands neu yn union o'r Cyhoeddyddion:

Y Tylwyth Teg
12 Heol Dyfrig
Pontcanna
Caerdydd



celtic asset management ltd.

RHEOLWYR BUDDSODDIADAU AC ASEDAU PERSONOL
ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI

PORTFFOLIADAU BUDDSODDI DAN REOLAETH
NAILL AI CYFEIRIEDIG NEU GORDDEWISOL

AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER Â:
DAFYDD HAMPSON-JONES
CYFARWYDDWR

78 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF4 3LX
Ffôn: 394021
Delwyr trwyddedig mewn gwarannau.

# EISTEDDFOD YR URDD 1987 MERTHYR TUDFUL

## DEWCH YN LLU
i

HTV

## CYSTADLEUAETH FAWREDDOG

FOLTRON

**Amddiffynnwr y Bydysawd**

## CROESO I BAWB

## ORIAU LAWER O RAGLENNI O'R ŴYL

HTV CYMRU

# COLOFN Y DYSGWYR

EISTEDDFOD DYSGWYR MORGANNWG A GWENT

Cynhaliwyd nawfed Eisteddfod Dysgwyr Morgannwg a Gwent yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, ar nos Fercher y cyntaf o Ebrill dan nawdd Cyngor y Dysgwyr De Morgannwg. Daeth tyrfa fawr ynghyd a chafwyd cystadlu brwd rhwng y gwahanol ganolfannau dysgu Cymraeg i oedolion. Enillwyd Cwpan yr Eisteddfod am y marciau uchaf mewn gwaith llwyfan yn ogystal ag yn yr adrannau Coginio a Chelf a Chrefft gan Ganolfan Oedolion Pen-y-Bont-ar-Ogwr. Maen nhw wedi ennill nifer o weithiau ers cychwyn yr Eisteddfod. Llywydd yr Eisteddfod eleni oedd Patrick Whelan o Ganolfan Hilary yn y Fro a'r Beirniaid oedd Howard Goodfellow (Cerdd), Bernard Evans (Adrodd), Iwan Llwyd Williams (Llên), Eluned Davies Scott (Coginio), Athrawon Ysgol Uwchradd Glynderw (Celf a Chrefft). Arweinwyr llwyfan yr Eisteddfod oedd Cefin Campbell ac Elen Rhys. Dymunwyd adferiad buan i Falmai Griffiths, Ysgrifenyddes yr Eisteddfod a chymeradwyd at y gwaith ysgrifenyddol gan Linda Moran.

Enillwyd y brif wobr, sef Cadair yr Eisteddfod (model o Gadair a wnaethpwyd gan ddisgybl yn Ysgol Glantaf), gan Jaffrey Morgan. Brodor o ardal Wrecsam ydy e, ond mae e'n byw yng Nghaerdydd bellach ers rhai blynyddoedd. Actor proffesiynol ydy e ac mae e'n cymryd un o'r prif rannau yn y ddrama gyfres boblogaidd 'Dinas' ar S4C. Dechreuodd ddysgu Cymraeg ym 1984 trwy ddilyn Cwrs Wlpan yng Ngholeg y Brifysgol Llanbedr, yna dilynodd gyrsiau yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd, Canolfan Dysgu Cymraeg yng Nghlwb Ifor Bach. Ei gamp oedd sgrifennu stori fer o tua 500-600 o eiriau ar y testun "Y Gadair Wag". Cafodd e ganmoliaeth uchel gan y Beirniad Iwan Llwyd Williams.

---

Cyngor y Dysgwyr De Morgannwg


Cynhelir Helfa Drysor dan nawdd y Cyngor ar nos Iau, y 14eg o Fai, a chychwynir am 6.30 o flaen Canolfan yr Urdd, Heol Conwy. Beth am drefnu llenwi car gyda'ch ffrindiau ac ymuno yn yr hwyl?

---


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad.)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530


Penwythnos i Ddysgwyr

Fe'i cynhelir ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd, dros y cyfnod Mai 22-25 ac mae croeso i unrhyw ddysgwr sy'n siarad yr iaith yn eitha rhwydd i ymuno a'r Cwrs hynod boblogaidd yma dan arweiniad Merfyn Williams, dirprwy warden y Ganolfan, Shirley Williams a Gwilym Roberts. Eleni am y tro cyntaf trefnir dau grwp cerdded, sef un i gerdded y mynyddoedd a'r llall i edrych mwy ar y bryniau a'r dyffrynnoedd. Gyda'r nos bydd y ddau grwp yn ymuno i wrando ar ddarlithoedd a chymryd rhan mewn sgyrsiau a thrafodaethau. Dyma gyfle i fwynhau harddwch Eryri ac i wella safon eich Cymraeg yr un pryd. Pris y Cwrs ydy £55 (o ginio nôs Wener i bryd mewn pecyn dydd Llun). Bargen y flwyddyn!

Am ragor o fanylion cysylltwch â Merfyn Williams, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd.

Swyddfa'r Eisteddfod,
Moderator Wharf,
Kingsway,
CASNEWYDD.

TORRI TIR NEWYDD YNG NGHASNEWYDD

Ceir arbrawf diddorol ar gyfer dysgwyr yn Eisteddfod Casnewydd. Am y tro cyntaf bwriedir cynhyrchu llyfryn arbennig ar eu cyfer, a hynny o dan nawdd y Pwyllgor Dysgwyr lleol. Bydd y llyfryn yn cynnwys gwybodaeth am yr Eisteddfod ac am y gweithgareddau ieithyddol bydd ar gael yno. Bydd hyn yn ychwanegiad at y cyfleusterau arferol a gynigir ym Mhabell y Dysgwyr yn flynyddol.

I baratoi ar gyfer y Cyhoeddi hefyd cynhelir Ysgol Undydd yn Nhŷ Rhydychen, Risga, dydd Sadwrn, Mehefin 20. Bydd hon yn canolbwyntio ar weithgareddau Wythnos y Cyhoeddi, sef Mehefin 22-28. O hynny ymlaen ceir Ysgolion Undydd i Ddysgwyr bob mis, a chyflwynir geirfa a gweithgareddau Eisteddfodol yno.

Cysyllter ag Elen Rhys -

0222 32326

am fanylion pellach.

---

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Mehefin at:
Y Dinesydd,
2, Crystal Glen,
Y Mynydd Bychan,
CAERDYDD
erbyn Mai 15fed

---


Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.


Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru

DATGANIAD I'R WASG

Mae 32 wedi ymgeisio am y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog a gynhelir ddechrau Awst.

Gofynnwyd eleni am gasgliad o gerddi heb fod mewn cynghanedd gyflawn ac heb fod dros 300 llinell ar y thema 'Breuddwydion', ac yn ychwanegol i'r goron a roddir gan Mrs. G. Rowlands a'i merch Menna, er cof am y diweddar William Rowlands, cyn brifathro Ysgol Eifionydd, Porthmadog, mae gwobr ariannol o £400.

Y beirniaid yw Bobi Jones, E. G. Millward a John Roderick Rees.

Derbyniwyd 13 ymgais ar yr awdl, lle cynigir cadair yr Eisteddfod (rhodd Clybiau Ffermwyr Ieuainc Eryri a Meirion), a £400 o wobr ariannol.

Cerdd mewn cynghanedd gyflawn heb fod dros 300 llinell ar y testun 'Llanw a Thrai' oedd y gofyn, a'r beirniaid yw Gerallt Lloyd Owen, Moses Glyn Jones a Gruffydd Aled Williams.

Ymgeisiodd 16 yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith, lle y gofynnwyd am gyfres o storiau byrion cyfoes. Cynigir gwobr ariannol o £400 yma eto, a'r beirniaid yw Eigra Lewis Roberts, Gruffydd Parry a Dafydd Ifans.

Michael Povey, Rhydderch T Jones a William R Lewis yw beirnaid y ddrama hir, a chafwyd wyth ymgais yma. Ar wahan i Dlws y Ddrama cynigir gwobr ariannol o £400 i'r enillydd.

Dyma rai o'r cystadleuthau mwyaf poblogaidd eraill:

Nofel Fer ar gyfer cystadleuwyr sydd heb gyhoeddi nofel - 12

Englyn (Testun - Angor) - 69

Englyn Ysgafn (Testun - Beddargraff Twrnai) - 63

Telyneg (Testun - Cymwynas) - 43

Soned (Testun - Y Bwlch) - 22

Emyn Gŵyl Ddewi ar gyfer gwasanaeth ysgolion cynradd neu uwchradd - 48

Deg o hwiangerddi gwreiddiol ar themau cyfoes - 18

Stori Fer (Testun - Ofn) - 28

Deialog rhwng gwleidydd a'i gydwybod - 7

Drama Fer - 10

Trosi Drama o'r Saesneg - 7


Cyfansoddi alaw (Cerdd Dant)-9

Cyfansoddi Emyn-dôn - 72

==================

Elfed Roberts - Trefnydd Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 71



Ar Draws:

1. Galwodd am gynhysgaeth (6)
4. Dull gor-eiriol o fynegiant a ddaw o gylch go chwithig. (8)
10. Fe ddichon mai tro ysgeler a ddigwydd ar daith a wnaf (9)
11. Ymgyflwyniad y Cymro i dasg sy'n ei wynebu. (5)
12. Toriad o gig blasus o Abergynolwyn. (4)
13. Mae natur Eglwys Loegr yn wahanol i eiddo'r Eglwys yng Nghymru. (10)
15. Y Llyfr Tonau i ffitio'r boced? (7)
16. Maent yn boethion mewn dadl na reolir yn iawn. (6)
19. "Yng nghynnydd pob gwybodaeth
Glanha, ------ ein ffydd"
(Elfed) (6)
21. Gwnaed rheffyn o'r hirwallt. (7)
23. Gwyddyl pur yn cael bannod yn ormod i ddangos didwylledd. (10)
25. Chwilier yn daer am y nyth. (4)
27. Y mymryn lleiaf o golur? (5)
28. Aeth ar ol y capten i'w bwrpas! (9)
29. Dodi bardd mewn dosbarth anghynnil. (8)
30. Gwneud math o gwilt? (6)

I Lawr

1. Llefnyn gwyrdd. (8)
2. Fe ddwed y farn uniawn bod tiriondeb yn deillio o'r drefn (9)
3. Heneiddio wrth aros? (4)
5. "--- ---- Deio......" (3,4)
6. Amser llawn, meddai, sy'n dangos ei fod mewn da bryd (10)
7. Roedd ei sothach o dros y lle i gyd. (5)
8. Treulio heb wario. (6)
9. "------ ei mawrion glwyfau
A dail y bywiol bren."
(Morgan Rhys) (6)
14. Cynghreiriaid sydd a thipyn o "ddur" ar y blaen. (10)
17. Bu chwyldro yn y gweithgarwch hwn ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. (9)
18. Ymateb gan rai sydd mewn oed i waith. (8)
20. Trwsgl oedd ei symud yn y ras at yr ogof. (7)
21. Fe ddyry D.P. adnoddau i wneud bardd. (6)
22. Lliw'r cyfle gorau. (6)
24. Cafwyd stop arno. (5)
26. Cred gwyr ofer, efallai (4)

DATRYSIAD RHIF 70

Ar Draws: 1. BEIRNIADAI; 6. DYALL; 9. CYMREICTOD; 10. HWRE; 12. CLYMBLEIDIAU; 15. ESIAMPLAU; 17. GWIDW; 18. ESGYN; 19. BENDITHIOL; 20. YSBRYDOLEDIG; 24. IAITH; 25. CYFANDIROL; 26. NYNI; 27. ANFFAELEDIG.

I Lawr: 1. BOCS; 2. IRMA; 3. NOETHLYMUNWYR; 4. ALCAM; 5. AROELEUON; 7. YSWEINIAID; 8. LLAESU DWYLO; 11.DISGRIFIADOL; 13. TELEDYDDION; 14. DISGYBLION; 16. LABRO DYGN; 21. EHANGA; 22. BRAD; 23.PLYG

CYSTADLEUAETH RHIF 70

Sachlian a lludw! Gadawyd allan dau gliw, sef 11 a 21 i lawr. Ac nid oes modd rhoi'r bai ar neb arall; diofalwch Ap Lewsyn ei hun oedd yn gyfrifol. Felly does dim amdani ond dileu'r gystadleuaeth y mis hwn. Ond er mor anghysurus yw fy ngwisg cwrs a llychlyd, hyfryd yw cofnodi bod John Hughes, Llanishen, a J.L. Ger y Llyn wedi llwyddo i ddatrys y cyfan yn gywir er waethaf y diffyg.

CYSTADLEUAETH RHIF 71

Gan obeithio fod popeth yn iawn y mis hwn, cynigiwn gwobr tocyn llyfr o £5 eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd 13, Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn Mai 20fed, os gwelwch yn dda.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: 8, May Street, Y Waun Ddyfal CF2 4EW. Ffon 36583

Mai 11 Nos Lun, Cyfarfod o Ferched y Wawr yn Festri Capel Minny St. am 7.30. Noson Gyffredinol - Dod a Dweud. Croeso i bawb.

GENI
Llongyfarchiadau i Neil a Sarah Johnson ar enedigaeth eu mab bychan yn Ysbyty'r Brifysgol ar ddydd Sul, Ebrill 26. Dyma wyr arall i Douglas a Jean Johnson, Miskin, ac wyr cyntaf i Emrys a Peggy Wynn Jones, Aberystwyth. Ein dymuniadau gorau i'r teulu bach.

PRIODAS DDA
Priodwyd Euros Rhys Evans a Sian Rhiannon Williams yng nghapel Moreia, Rhymni ar Ebrill 21. Athro cerdd yn Ysgol Llanhari yw Euros ac mae Sian yn gweithio gyda'r BBC yng Nghaerdydd. Ein llomgyfarchiadau a'n dymuniadau gorau iddyn nhw yn eu cartref newydd yng Ngwenfro.

MARW
Clywsom gyda thristwch am farwolaeth Gwilym Jenkins, Groesfaen, tad Elfionwy a Dilwyn. Dymunwn gydymdeimlo a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i Sian Jones a Stephen Turner ar eu priodas ar Ebrill 11. Fe'u priodwyd ym Mhorthcawl gan fod rhieni Sian, D.C. a Mair Jones, gynt o Radyr, newydd ymadael a'r ddinas ar ôl bod yma am bymtheg mlynedd ar ugain. Mae'r pâr priod newydd am ymgartrefu yn Llundain, lle mae Sian yn athrawes, a Stephen yn heddwas.

Dymuniadau am adferiad llwyr a buan i'r Parchedig Idris T. Davies, Tredegar. Ef yw tad Hywel Davies - y llais a ddaw o'r Unol Daleithiau ar 'Helo Bobol' bob bore. Bu Hywel, wrth gwrs, yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd am flynyddoedd ond bellach yn byw - dros dro gobeithio!! - yn Ne Carolina, cartref ei wraig Charlotte.

Dymuna'r 'Dinesydd' gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a dderbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru.